MADE CYMRU
ASTUDIAETH ACHOS



# ART OF ECO

## Julie Langston
Cyfarwyddwr Creadigol

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund



Mae Art of Eco yn gwneud ac yn cynhyrchu teils llech-faen ar gyfer waliau, lloriau ac arwynebau. Maen nhw'n cynllunio a chreu cynnyrch ar gyfer nifer o ardaloedd mewnol. Maen nhw wedi meistroli eu crefft dros nifer o flynyddoedd o sut i fynd ati i ddatblygu'r cynnyrch o lechfaen unigryw. Mae'r tîm Celf a Dylunio mewnol yn cynhyrchu addurniadau unigryw ar gyfer waliau, lloriau ac arwynebau mewnol. O gefnfyrddau cegin i deils llawr a wal, o furlun i bwll nofio mewn cartref, neu ardaloedd y tu fewn o fewn safleoedd masnachol o faint. Maen nhw'n gweithio'n uniongyrchol gyda chwsmeriaid, cynllunwyr mewnol a phenseiri ar gyfer eu holl ofynion sy'n ymwneud â gofod domestig a masnachol.




Mae Julie Langston yn Gyfarwyddwr Creadigol Celf Eco ac astudiodd gwrs MADE Cymru Gwelliant Parhaus gyda Diwydiant 4.0.

## Beth yw eich rôl chi yn Art of Eco?

Fi yw'r Cyfarwyddwr Creadigol mewn gwirionedd. Fy rôl i yw rhagweld a chydlynu dyluniad ein cynhyrchion a'n haddurno, gofynion y cwsmeriaid, a'r cyfeiriad dylunio y bydd y busnes yn ei gymryd ar sail fyd-eang.

Gyda Art of Eco yn dechrau cyfnod cyffrous yn ei raglen datblygu gweithgynhyrchu, gyda deunydd crai newydd, a ffyrdd newydd o gynhyrchu ein cynnyrch gorffenedig, mae fy rôl yn cynnwys diweddaru ein dulliau cynhyrchu'n gyson i ymgorffori ein canfyddiadau newydd - gobeithio er gwell. Mae'n fater o gydbwyso amser, ymdrech a chanlyniadau'n barhaus. Wrth i'n gweithgynhyrchu newid oherwydd y deunyddiau a'r offer, rydym yn gallu gwella ein heffeithlonrwydd, a'n rhinweddau eco, a thrwy dwf, cynnal ein i fyny cynnal ein hedrychiad trwy 'olwg trwy 'addasiadau bychain' i ymddangosiad a dyluniad ein cynnyrch.

## Beth wnaeth ichi gofrestru ar gyfer cwrs Gwelliant Parhaus gyda Chwrs Diwydiant 4.0 MADE Cymru?

A bod yn onest, roeddwn am gynyddu fy sylfaen wybodaeth, yn arbennig felly'r derminoleg ar gyfer ein twf a'n cynlluniau i gynyddu cynhyrchiant - y cyfan wedi dod o amser y 'cyfnodau clo' yn sgil y pandemig. Ac oherwydd bod y cyfan ar-lein, roedd yn cynnig y cyfle i mi gamu nôl a dysgu!

Astudiais y cwrs trwy gydol 2020, - blwyddyn y pandemig - yn y gorffennol bydden ni wedi mynd i Brifysgol neu goleg gyda'n golwg ar greu ein dyfodol a chychwyn ein bywydau, ond roedd 2020 yn ymwneud yn gyfan gwbl â goroesi a'r heriau a wynebwyd gennym oherwydd y cyfnod hwnnw.

ART OF ECO



## Cyn y cwrs - pryd fuoch chi'n astudio cyn hyn?

Roeddwn wedi bod yn dilyn Cwrs Cerameg Stiwdio yn Ysgol Gelf a Chrefft Camberwell, a Cerameg Ddiwydiannol yng Ngholeg Polytechnig Middlesex. Roedd hynny ymhell yn ôl yn yr 80au. Mae'n rhyfeddol, fel mae addysg wedi newid, roedd y ddarpariaeth ar-lein ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn achos rhyfeddod i mi!

## Pa heriau oeddech chi/y sefydliad wedi gobeithio y byddai'r cwrs yn mynd i'r afael â nhw?

O'm safbwynt i, dwi'n meddwl ein bod wedi cyflawni lefel cyn y pandemig lle roeddem yn gweld y dyfodol, roedd yr archebion yn dda, a'n cynlluniau ar gyfer cynyddu ein hallbwn gweithgynhyrchu a'n twf yn esblygu. Roedd ein portffolio cynnyrch a dylunio wedi dal sylw gwahanol gwsmeriaid a dargedwyd gennym. Fodd bynnag, fe chwalodd y pandemig hynny i gyd. Felly, roedd yn rhaid i ni ail-werthuso ac edrych ar yr hyn roeddem yn ei wneud, ac efallai beth oedd angen i ni ei wneud, gan ofyn a oedd cyfle i ni addasu mymryn ar yr hyn yr oeddem wedi ei greu.

Roedd y 'gofod amser' felly gennym i ail-ffocysu ein meddyliau, ac o ganlyniad y cyfle i ni ail-drefnu llawer o'r syniadau gwreiddiol, gan edrych i ganolbwyntio ar feysydd lle byddem yn medru defnyddio ac integreiddio ein cynlluniau yn well gyda'n gwybodaeth gynyddol am brosesau gweithgynhyrchu ein cynnyrch, a'n rheolaeth ni drosto, yn arbennig cofleidio'r dechnoleg ddigidol i gwblhau'r holl brosesau.

# ART OF ECO



**Sut cafodd eich busnes ei effeithio gan heriau'r blynyddoedd diwethaf?**

Yn fawr iawn felly o safbwynt y pandemig, ac efallai yn fwy felly gyda Brexit, roedden ni ar fin derbyn rhywfaint o fuddsoddiad Ewropeaidd yr oedd mawr ei angen, i dyfu'r busnes, pan achosodd canlyniad Brexit i hynny beidio bod. Mae wedi mynd â ni tan nawr i ail-drefnu’r fargen honno eto, ac rydym yn falch o ddweud -yn well nag yr oedd bryd hynny - ond erbyn hyn mae'r byd yn sylwi ar yr hyn a wnawn, ac efallai'r gallu i helpu i reoli'r cynhesu byd-eang sy’n cael ei achosi gan y diwydiannau teils cerameg sy’n cynhyrchu C02 yn ddi-ben draw, os bu angen erioed am Gelf o gynnyrch Eco - nawr yw’r amser i wneud hynny.

**Pa elfennau o'r cwrs yn eich barn chi fyddai yn eich helpu i fynd i'r afael â rhai o'r heriau rydych chi'n eu hwynebu?**

Rwy'n credu mai'r berthynas rhwng dylunio, a gweithgynhyrchu sy'n parhau i fod y peth mwyaf cyffrous i mi. Mae'r gallu i gyfuno 'sgiliau gorffen â llaw' gydag arferion gwaith modern sy'n seiliedig ar linell gynhyrchu, drwy'r oes ddigidol, mor gyffrous – ac yn syml, nid oeddem yn ymwybodol o'r ffordd bosibl hon yn ôl ar ddiwedd y 1970au. Mae’r newidiadau wedi bod yn enfawr, ac yn cynnig llond gwlad o gyfleoedd, gan ddod â dyluniadau o safon uchel i’r farchnad ar lefel is drwy gyfuno dyluniad, deunydd a thechnoleg.

**Ydy'r cwrs wedi cael effaith ar eich busnes?**

Ydi, yn sicr, rydym bellach yn edrych i gynyddu ein capasiti cynhyrchu, drwy ddod ag ystod o gynnwys wedi'i ailgylchu 98%, heb ddefnyddio gwres yn y broses, teils ar gyfer y wal, a lloriau i'r farchnad yn ystod y 12-18 mis nesaf a rhoi Cymru ar fap y byd gyda'n harloesedd.

Rwy'n credu bod y cwrs wedi rhoi’r ffydd i ni gredu yn ein galluoedd a'r gydnabyddiaeth gan ein tiwtoriaid o'r cwrs a'r Drindod Dewi Sant, bod gennym rywbeth arbennig a gwerth ei ddilyn, yn caniatáu inni estyn allan a gweithio ar fargeinion ar y cyd gyda chynifer o bobl eraill, a oedd yn amlygu'r cynnyrch a'i alluoedd.

O brofiad edrych, teimlo a chyffwrdd mae'n gwneud i rywun sylweddoli bod hi’n bosibl, gyda thechnoleg i drosglwyddo ein dulliau yn ddigidol - mae’n brofiad cyffrous iawn.

**Beth ydych chi wedi mwynhau am y cwrs?**


Rydyn ni'n rhyw fath o anghofio sut a pham aethon ni i astudio, ac felly dwi'n meddwl mai aild-dysgu'r broses ddysgu a mynd yn ôl i mewn iddo, rai blynyddoedd yn ddiweddarach, a thrwy hynny rhoi cipolwg hollol newydd i mi ar y gallu i ddysgu. Oedd o'n hwyl? Byddai'n rhaid i mi gyfaddef ei fod yn straen ar y dechrau ond daeth yn fwy a mwy pleserus wrth i'r amser fynd yn ei flaen. Roedd dysgu ar-lein yn gyflwyniad gwych i'r byd newydd dewr hwn rydym ni'n cael ein hunain ynddo! Dydw i ddim yn berson llyfrau, ond yn hytrach yn ddysgwr gweledol ac felly roedd y cwrs yn hynod bleserus.

**Beth am sut y cafodd ei gyflwyno?**

Rydw i’n angerddol am fy ngwaith, felly mae amser yn werthfawr i mi, felly roedd medru eistedd o flaen fy nghyfrifiadur am brynhawn yn wych, dim teithio, dim gwisgo lan – bendigedig.

Mae tîm MADE Cymru yn addysgwyr gwych.... yn medru cyfleu llawer o wybodaeth mewn ffordd oedd (bron) yn ymlaciol – nawr rwy'n gwybod beth oedd hanfod algebra, a sut i gymhwyso Mathemateg yn llwyddiannus mewn diwydiant! Roedd yn gwneud dysgu'n hawdd, gan nad oedd gennych unrhyw bethau i dynnu eich sylw.

Maen nhw'n bobl anhygoel sy'n barod i rannu ac egluro cymaint, ac yn gweithio gyda chi i ddangos sut i’w gymhwyso i'ch busnes chi - hyd yn oed yr elfen gelf! Mi fwynheais yr elfen o gyflwyno diwydiannau eraill a chymharu'r un dulliau gweithgynhyrchu a pha mor hanfodol yw mesur data . Hefyd efallai, y sylweddoliad nad yw’n gwneud gwahaniaeth beth yw maint eich busnes, yr un yw’r math o broblemau sy’n rhaid delio â nhw.



ART OF ECO

**Beth nesaf i ti a'r busnes? Ac a fydd eich gwybodaeth newydd yn helpu yn y cynlluniau hyn?**

Bydd. Yn ein cynlluniau ehangu gobeithiol mae datblygu ac ymgorffori’r athroniaethau hyn i gyd yn ymwneud â deilliannau llwyddiannus i'n gobeithion a'n huchelgeisiau. Bydd datblygu a gallu defnyddio iaith gyffredinol rhwng amrywiaeth o randdeiliaid, weithiau yn amrywiol iawn i gynorthwyo gwella ein diwydiant o fudd enfawr. Er bod gennym lawer mwy i'w ddysgu o hyd, mae wedi rhoi mwy o hyder i mi symud ymlaen gyda'n cynllun twf.

**Rydw i'n angerddol am fy ngwaith, felly mae amser yn werthfawr i mi, felly roedd medru eistedd o flaen fy nghyfrifiadur am brynhawn yn wych, dim teithio, dim gwisgo lan – bendigedig.**

~ Julie Langston




I ddysgu mwy am y cyrsiau MADE Cymru ar gyfer y cymwysterau Uwch-sgilio ar gyfer Diwydiant a Rheoli Arloesedd 4.0, ewch i **www.madecymru.co.uk**

**01792 481199**
**MADE@uwtsd.ac.uk**

Mae MADE Cymru yn cael ei ariannu gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru. Traddodwyd ac ardystiedig gan Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.